CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

Dyddiad y cyfarfod: **7 Tachwedd 2024**

Teitl: **Sefydliad Addysg Goffa COE**

Pwrpas yr adroddiad: **Astudiaeth Ddichonoldeb o Fferm Blaendyffryn**

Er: **Penderfyniad**

Cefndir

Cyngor Sir Ceredigion yw unig ymddiriedolwr Sefydliad Addysg Goffa COE, sy'n cynnwys Fferm Blaendyffryn, Horeb.

Mae'r Cyngor, yn ei swyddogaeth gorfforaethol, wedi comisiynu *SLR Consulting Ltd* i gynnal astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol ar dir gwag a ffermydd sy'n eiddo i'r Cyngor a fydd yn rhoi trosolwg o sefyllfa'r tir mewn perthynas â chyfrannu at ddal carbon, bioamrywiaeth, mynediad cyhoeddus, gweithgarwch economaidd, adfer natur a dŵr ffo maetholion. Bydd hefyd yn cynnwys argymhellion a allai wella'r arferion amaethyddol, gwella bioamrywiaeth, lliniaru maetholion, a'r defnydd o'r tir yn y dyfodol.

Bwriedir defnyddio'r wybodaeth i ddrafftio cynllun gweithredu ar gyfer rheoli'r daliadau tir yn y dyfodol i gryfhau cyfraniad y Cyngor tuag at faterion fel cyflawni Sero Net a'r ddyletswydd statudol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn ogystal â chysylltu â pholisïau a strategaethau amrywiol y Cyngor. Bydd hefyd yn helpu'r tenantiaid i ystyried ffyrdd eraill o reoli'r fferm a darparu gwybodaeth ddefnyddiol i denantiaid ei defnyddio ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy disgwyliedig.

Mae swyddogion, sy'n gweithredu ar ran y Cyngor yn rhinwedd ei swyddogaeth gorfforaethol, yn bwriadu cynnwys Fferm Blaendyffryn o fewn yr astudiaeth hon am ddim i'r ymddiriedolaeth. Mae hyn yn amlwg er budd yr ymddiriedolaeth gan y bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r ymddiriedolaeth am Fferm Blaendyffryn ac yn helpu i lywio'r gwaith o reoli'r fferm yn y dyfodol gan yr ymddiriedolaeth a'i thenantiaid presennol/yn y dyfodol.

Bydd cymryd rhan yn yr astudiaeth yn dibynnu ar gytundeb tenant yr ymddiriedolaeth gan y bydd angen i'r tenant gwrdd â'r ymgynghorydd a thrafod materion amrywiol fel cylchdro cnydau, math o stoc a dwysedd ac ati.

Argymhelliad / Argymhellion:

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1. **i nodi y bydd astudiaeth dichonoldeb gorfforaethol yn cynnwys Fferm Blaendyffryn am ddim i'r ymddiriedolaeth; a**
2. **yn amodol ar y tenant sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth, bydd y swyddogion hynny'n adrodd yn ôl ganfyddiadau'r astudiaeth yn y Pwyllgor nesaf ar ôl i'r astudiaeth ddod i ben.**

Rhesymau dros benderfyniad:
Darparu gwybodaeth i'r ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r daliad fferm a fydd yn cynorthwyo i hyrwyddo amcanion yr ymddiriedolaeth.

Atodiadau: Dim.

Pennaeth y Gwasanaeth: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

Swyddog Adrodd: Louise Harries, Uwch Gyfreithiwr – Annadleuol (Eiddo)

Dyddiad: 18/09/2024